



YR HEUWR

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB PENRHYN-COCH
CYFROL 2 RHIF 68
GORFFENNAF/AWST 2014

Er y bu dewis eang o chwaraeon ar y cyfryngau yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae'n siwr mai Cystadleuaeth Cwpan Pêl Droed y Byd a gynhelir ym Mrasil a hawliodd y prif benawdau.

I rai, nid yw'r gêm bêl droed yn ddim amgenach na phêl yn cael ei chicio o gwmpas cae anferth gan griw o fechgyn sy'n derbyn llawer gormod o gyflog. Ond mewn gwirionedd mae'n llawer mwy na hynny. I'r chwaraewyr mae'n golygu oriau o ymarfer ac hyfforddi, cyd-weithio fel tîm, datblygu tactegau i geisio ennill gemau, yn ogystal â chadw'n heini a bwyta'n iach.

Ond yr hyn sy'n gwbl hanfodol mewn gêm bêl droed yw presenoldeb a chyfraniad y cefnogwyr. Wrth fynd i wylio gêm bêl-droed bydd y cefnogwyr yn mwynhau'r profiad o ymlacio a chymdeithasu wrth iddynt uniaethu eu hunain â thîm arbennig. Mae'n golygu cryn ymdrech hefyd ar brydiau wrth deithio'n bell i gefnogi'r tîm oddi cartref, talu'n ddrud am docyn tymor a dal ati yn driw pan fydd y chwaraewyr wedi colli'r dydd ac o bosib yn syrthio o'r brif gynghrair.

Yn hyn o beth mae 'na debygrwydd rhwng swyddogaeth cefnogwyr clybiau pêl-droed ac aelodau o Eglwys Iesu Grist. Mae bod yng nghwmni'r Iesu yn cynnig cyfle i bawb ohonom ymlacio a chael chymdeithas braf ac y mae hefyd yn golygu ymdrech a buddsoddiad o ran amser ac adnoddau. Ond y mae yna un gwahaniaeth sylfaenol. Bydd y rhan fwyaf o gefnogwyr timau pêl-droed yn gwbl anhysbys i'r chwaraewyr ond fel cefnogwyr i'r Arglwydd Iesu, y mae ef yn adnabod bob yr un ohonom yn well na ni ein hunain ac yn barod i'n cefnogi bob amser beth bynnag yw ein hanes.

Mae angen cefnogwyr da ar Iesu Grist heddiw: cefnogwyr sy'n barod i'w ddilyn yn ddi-flino ac yn barod i ddal ati i floeddi drosto pan fo lleisiau eraill wedi distewi. Boed i ninnau fod yn barod i gefnogi'r un sydd bob amser yn gefn inni.

Pob bendith dros wyliau'r haf,
Judith

Berwynfa, Penrhyn-coch, Aberystwyth. SY23 3EW 01970 820939 berwynfa@btinternet.com

+++++

Gweithgorau'r Capel: Yn dilyn cwrdd eglwys i drafod dyfodol Horeb, penderfynwyd ffurfio 4 gweithgor i geisio hybu gwaith yr eglwys. Os oes gennych ddiddordeb i weithredu ar un o'r gweithgorau canlynol, rhowch wybod imi neu rhowch eich enw ar y rhestr yng nghyntedd y capel: Addoli; Y To Ifanc; Estyn Allan ac Adnoddau. Croeso cynnes i bawb i ymuno ag o leiaf un o'r gweithgorau. Yn ogystal cytunwyd i anfon holiadur allan i bob aelod yn holi eu barn am syniadau ac awgrymiadau ar gyfer dyfodol Horeb.

Priodasau Cyplau Un Rhyw: Ar 13eg Mawrth 2014, ymddangosodd Deddf Priodas Cyplau Un Rhyw ar y Llyfr Stadud a bu'n weithredol ers 29ain Mawrth 2014. I'r perwyl hwn, cynhelir cwrdd eglwys ar ddydd Sul, 27 Gorffennaf er mwyn i'r aelodau bleidleisio p'un ai i gofrestru Horeb fel adeilad lle y gellir cynnal priodasau cyplau un rhyw, neu i eithrio allan o weinyddu priodasau cyplau un rhyw. Cynhelir pleidlais gudd. Yn ystod y Suliau nesaf byddwn yn deisyf arweiniad Duw ar y mater hwn.

Cystadleuaeth y Barbeciw: Eleni eto cynhelir cystadleuaeth arbennig y Barbeciw. Y testun yw creu 'Colomen' ac ysgrifennu neges heddwch i'r byd. Cewch ddefnyddio unrhyw gyfrwng, er enghraifft, crayonau, paent, collage, model. Dewch â'ch cynnig gan roi eich enw a'ch oedran ar eich gwaith i'r Festri erbyn nos Lun, 21 Gorffennaf rhwng 5-6yh.

CALENDR MISOEDD GORFFENAF-AWST 2014

Cyhoeddwr y Mis: Eirian Reynolds	Organydd y Mis : Ceris Gruffudd	
6 Gorffennaf 2.30yp	Oedfa Gymun : Gweinidog	Bwrdd y Cymun: I'w drefnu
13 Gorffennaf 10.30yp	Oedfa Deuluol: Gweinidog	
20 Gorffennaf 10.30yb 2.30yp	Ysgol Sul o dan arweiniad Zoe Oedfa bregethu: Gweinidog	Gofal y Te: I'w drefnu
27 Gorffennaf 10.30yb	Oedfa Gymun a Chwrdd Eglwys : Gweinidog	
3 Awst 10.00yb a 6.00 yr hwyr SEION	Y Parchg Andrew Lenny	
10 Awst 10.00yb a 6.00 yr hwyr BETHEL	Y Parchg John Derek Rees	
17 Awst 10.00yb a 6.00 yr hwyr MORFA	Y Parch Eifion Roberts	
24 Awst 10.00yb a 6.00 yr hwyr ST PAUL	Y Parchg R.O. Roberts	
31 Awst BETHEL	10.00 Y Parchg Jenny Hurd 6.00 Y Parchg Judith Morris	
7 Medi 2.30yp	Oedfa Gymun : Gweinidog	Bwrdd y Cymun: i'w drefnu

I'ch Dyddiadur

7 Gorffennaf: Cinio Bara Caws Cymorth Cristnogol yn Neuadd y Waun 12.00-1.30yp.

8 Gorffennaf: Sesiwn sganio eitemau Prosiect Cofio a Myfyrio y Rhyfel Byd Cyntaf yn Neuadd yr Eglwys, Penrhyn-coch rhwng 5yh a 7yh.

9 Gorffennaf: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys.

23 Gorffennaf: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys : Horeb yn gyfrifol am weini.

23 Gorffennaf: Cyfarfod Diaconiaid Horeb

25 Gorffennaf: Barbeciw Horeb yn Stablau Sian am 6yh.

29 Gorffennaf: Cylch Darllen y Beibl yn Festri Horeb am 2.00yp

13 Awst: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys am 12.00yp

27 Awst: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys am 12.00yp

21 Medi: Oedfa Arbennig yn Horeb am 2.30yp i ddathlu 40 mlwyddiant y Parchedig Peter Thomas, Gweinidog Anrhydeddus Bethel a Horeb yn y weinidogaeth.

1 Hydref: Oedfa Ddiolchgarwch Horeb yng nghwmni Sian Howys am 7yh

LLOFFION

Croeso cynnes i Florence Myfanwy Ifan, merch i Sara a Gwydion, wyres i Sandra a Mansel a gor-wyres i Glenys a Henry.

Llongyfarchiadau i Lowri Morgan ar ennill ei gradd ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

Dymuniadau gorau i Mervyn sydd wedi derbyn triniaeth yn yr ysbyty

ac i Connie sydd wedi bod yn yr ysbyty.

Cydymdeimlwn yn ddwys ag Iwan a Nerys a'r teulu, Garnwen ar golli mam-gu.

Gwibdaith: Diolch i bawb a fu ar y wibdaith ym mis Mehefin am bob cymorth a chefnogaeth. Bu'r profiad o golli Meurig yn ddisymwth yn gwbl annisgwyl. Diolch yn arbennig i Eirian a William, gyrrwr y bws a chriw yr ambiwlans am bob ymdrech i'w adfywio. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Emyr a'r teulu yn eu colled a'u hiraeth.

Barbeciw Horeb: Cynhelir Barbeciw Horeb ar nos Wener, 25 Gorffennaf yn Stablau Sian am 6yh. Os hoffech gyfrannu pwdin tuag at y noson byddem yn ddiolchgar iawn.